

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**  
**Dydd Mercher, 4 Chwefror 2015**  
**Ystafell Gynadleddau, Y Llwyfan, Caerfyrddin**

**Yn bresennol:**

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Heledd Bebb, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Anwen Jones, Dr Lisa Lewis, Llŷr Roberts, Dr Siân Wyn Siencyn, Yr Athro Enlli Thomas
- Aelodau (Myfyrwyr): Gwion Dafydd (tan 3.00), Jacob Ellis, Aled Illtud, Gwyndaf Lewis, Rhodri Organ
- Aelodau (Colegau Cymru): Carys Swain
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)
- Yn bresennol: Merfyn Morgan
- Ymddiheuriadau: Dr Jeremy Evas, Gwenno Gibbard, Rhiannon Hincks, Yr Athro Carwyn Jones, Huw Morris (ex-officio), Dr Angharad Naylor, Matthew Rees, Llinos Roberts, Dr Gwennan Schiavone, Linda Wyn

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p><b>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</b></p>	<p>1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon.</p> <p>1.2. Croesawyd Dr Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor, i'w chyfarfod cyntaf; estynnwyd croeso nôl i'r Athro Enlli Thomas ar ôl ei chyfnod mamolaeth; a chroesawyd Merfyn Morgan, Cadeirydd Grŵp Strategol Addysg Uwch/Addysg Bellach.</p> <p>1.3. Croesawyd Gwion Dafydd ac Aled Illtud, cynrychiolwyr myfyrwyr 2014/15, i'w cyfarfod swyddogol cyntaf.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>1.4. Nodwyd llongyfarchiadau i Heledd Bebb ar ei swydd newydd a gan mai dyma ei chyfarfod olaf diolchwyd iddi am ei chyfraniad ar hyd ei thymor gwasanaeth; yr Athro Eleri Pryse ar ei phenodiad i Gadair ym Mhrifysgol Aberystwyth; a'r Athro Enlli Thomas ar ei phenodiad i Gadair ym Mhrifysgol Bangor.</p> <p>1.5. Cafwyd diweddariad ar werthusiad y Coleg gan Dateb/Oldbell3, ac a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyllido (HEFCW), gan y Prif Weithredwr. Cytunwyd i gylchredeg ymateb ffurfiol y Coleg i'r gwerthusiad i'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd bod y Coleg eisoes wedi gweithredu mwyafrif yr argymhellion ac y byddai'r argymhelliad ar ysgoloriaethau ymchwil yn dod gerbron y Bwrdd Academaidd yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>1.6. Derbyniwyd diweddariad ar rai o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, Andrew Green, a (i) swyddogion Llywodraeth Cymru, (ii) Prifysgolion Cymru (AUC gynt) a (iii) y Cyngor Cyllido. Nodwyd bod y Coleg yn y broses o gyflwyno ymateb ffurfiol i Adolygiad Diamond.</p>	Cylchredeg ymateb y Coleg i'r Bwrdd Academaidd	Cyn Pasg 2015
<p><b>2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb</b></p>	<p>2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
<p><b>3. Cyflwyniad gan Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr</b></p>	<p>3.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Lowri Morgans o Goleg Sir Gâr, Bethan Wyn Davies, swyddog Cangen y Coleg ym Mhrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, a Gwilym Dyfri Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniad ar y berthynas ddatblygol gydweithiol rhwng Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2014</b>	4.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
<b>5. Aelodaeth (BA/15/01/04)</b>	<p><u>Trafodaeth Gaeëdig</u></p> <p>5.1. Ar gyfer yr eitem hon gadawodd Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts yr ystafell. Adroddwyd bod tymor yr Athro Carwyn Jones, Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts yn dod i ben fis Gorffennaf 2015. Er bod y tri'n gymwys i'w hail-benodi ar gyfer tymor pellach nodwyd nad oedd yr Athro Carwyn Jones yn dymuno parhau am dymor pellach.</p> <p>5.2. Yn dilyn trafodaeth a oedd yn cydnabod gwaith y tri ar y Bwrdd Academaidd cymeradwywyd ail-benodi Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts am dymor pellach o chwe blynedd tan Orffennaf 2021.</p> <p>5.3. Bydd y Coleg mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Academaidd yn argymhell enwau dau aelod newydd i'r Bwrdd Academaidd i gymryd lle'r Athro Carwyn Jones a Heledd Bebb; ystyriwyd a ddylid canfod aelodaeth mewn maes nad sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Academaidd.</p> <p>5.4. Gwahoddwyd Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts yn ôl i'r cyfarfod.</p>		
<b>6. Cynlluniau pynciol (BA/15/01/5a)</b>	6.1. Cyflwynwyd diweddariad o'r cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. Awgrymwyd ychwanegu colofn i'r tabl pynciol yn nodi'r data swyddogol diweddaraf. Nodwyd bod y cynlluniau ym meysydd Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, a Hanes a Hanes Cymru yn llawn weithredol er nad oeddent yn yr un fformat â'r cynlluniau eraill. Nododd y Cadeirydd y byddai eisiau sicrhau bod y rhain yn eu ffurf terfynol ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd. Adroddwyd bod trafodaeth gychwynnol wedi digwydd ym maes Diwinyddiaeth ac	<p>Diweddarau'r ddogfen cynlluniau pynciol gan ychwanegu colofn arall a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf</p> <p>Cyflwyno cynlluniau Cymraeg, Hanes a Diwinyddiaeth i'r cyfarfod nesaf</p>	<p>13 Mai 2015</p> <p>13 Mai 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Astudiaethau Crefydd; nododd y Cadeirydd y byddai eisiau sicrhau bod drafft cyflawn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd.</p> <p>6.2. Cyflwynwyd cynlluniau ym meysydd Cyfrifiadureg a Pheirianeg ac wedi trafodaeth cymeradwywyd y cynlluniau gyda man newidiadau i'r targedau. Nodwyd bod angen cadarnhad ffurfiol o ymrwymiad i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg (heb sicrwydd o nawdd gan y Coleg) gan sefydliadau eraill sy'n dymuno cael eu cynnwys yn y cynlluniau dan sylw.</p>		
<p><b>7. Adolygiadau pynciol</b></p>	<p>7.1. Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cofrestrydd ar adolygiadau peilot ym meysydd Busnes a'r Gyfraith.</p> <p>7.2. Nodwyd bod y broses wedi arwain at nifer o argymhellion, yn y ddau faes, ynghylch camau gweithredu i'r dyfodol. Roedd natur yr argymhellion hyn yn profi'r angen am drafodaethau pellach rhwng swyddogion y Coleg a'r sefydliadau unigol cyn cynnal cyfarfod arbennig o'r panel pwnc i gytuno ar gynllun diwygiedig ac amserlen i'w cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. Cafwyd adroddiad llafar i ategu hyn gan Heledd Bebb (Cadeirydd y Panel Busnes) a'r Athro Gwynedd Parry (Cadeirydd y Panel Cyfraith).</p> <p>7.3. Argymhellwyd cynnal y broses ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfod panel pwnc</li> <li>• Cyfarfod adolygu yn cynnwys aelod allanol ac, yn dilyn hynny, cyflwyno argymhellion cychwynnol</li> <li>• Swyddogion y Coleg i hwyluso trafodaethau gyda'r sefydliadau perthnasol i ystyried yr argymhellion</li> <li>• Cyfarfod arbennig o'r panel pwnc (wyneb yn wyneb) i gytuno ar gynllun pwnc diwygiedig, camau gweithredu ar gyfer yr argymhellion a thargedau ar gyfer y cyfnod nesaf</li> <li>• Cyflwyno drafft o Gynllun Pwnc wedi ei adolygu i'r</li> </ul>	<p>Cofrestrydd i osod canllawiau ar bapur</p>	<p>Mawrth 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Bwrdd Academaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Academaidd yn ystyried a chymeradwyo'r cynllun diwygiedig</li> </ul> <p>7.4. Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd sicrhau cynrychiolaeth ar y Bwrdd Academaidd o'r meysydd a drafodir wrth adolygu'r cynlluniau pynciol. Gellir gwahodd arbenigwyr maes os bydd angen.</p> <p>7.5. Cytunwyd y byddau trafodaeth ar bwmpas a swyddogaeth cynlluniau pwnc yn y cyfarfod nesaf. Yn dilyn y drafodaeth honno cytunir ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i ffurf y cynlluniau cyn cychwyn ar y cylch nesaf o gytuno ar gynlluniau diwygiedig.</p> <p>7.6. Arweiniodd y Cofrestrydd drafodaeth gychwynol ar leoliadau astudio cynaliadwy. Cytunwyd y byddai angen cytuno ar nifer o egwyddorion mewn perthynas â hyn yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Sicrhau cynrychiolaeth</p> <p>Diweddariad gan DT</p>	<p>Wrth weithredu pob adolygiad pynciol</p> <p>13 Mai 2015</p>
<p><b>8. Adolygiad Ieithoedd Modern</b></p>	<p>8.1. Derbyniwyd adroddiad ar yr adolygiad Ieithoedd Modern a gylchredwyd ar 3 Chwefror 2014 gan y Prif Weithredwr gan nodi bod argymhellion cychwynol adolygiad Tachwedd 2014, er gwybodaeth. Yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr prifysgolion Bangor ac Abertawe, lle mae buddsoddiad y Coleg wedi ei leoli yn bennaf ar hyn o bryd, cytunwyd y byddai'r ddwy brifysgol yn cyflwyno argymhellion diwygiedig erbyn 20 Chwefror 2015. Nodwyd bod y cam nesaf yn ddibynnol ar y cynllun a ddaw i law. Cytunwyd i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Diweddariad i'r cyfarfod nesaf</p>	<p>13 Mai 2015</p>
<p><b>9. Tystysgrif Sgiliau Iaith</b></p>	<p>9.1. Derbyniwyd adroddiad llafar ar drefniadau achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith gan y Prif Weithredwr. Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Cydweithio Academaidd ar 21 Ionawr 2015. Eglurwyd bod angen ffurfioli statws y dystysgrif fel cymhwyster a thrafodwyd a ddylai'r prifysgolion neu gorff</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>allanol achredu. Adroddwyd bod y pwyllgor o'r farn unfrydol nad oedd yn ymarferol i'r prifysgolion achredu a chytunwyd y dylai'r Coleg ddilyn y llwybr o achredu gan gorff allanol.</p> <p>9.2. Nodwyd y byddai argymhelliad yn dod gerbron y Bwrdd Academaidd ar ôl derbyn rhagor o wybodaeth. Y bwriad yw y bydd trefniadau mewn lle erbyn Medi 2016.</p>		
<p><b>10. Pwyllgor Cydweithio Academaidd</b></p>	<p>10.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Cofrestrydd ar drafodaeth y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a gyfarfu ar 21 Ionawr 2015. Cyfeiriwyd at gynllun gwaith yr aelod myfyrwyr yn casglu profiadau'r myfyrwyr ar gyrsiau cydweithredol (mae'r gwaith eisoes wedi dechrau); derbyn y cytundeb fframwaith terfynol ar gyfer darpariaeth gydweithredol; trefniadau achredu'r dystysgrif sgiliau iaith (eitem 9 uchod); bod y cynllun rhan-amser yn weithredol; a bod trafodaethau am gyd-ddilysu'r cynllun Astudiaethau Cyfieithu ar y gweill.</p> <p>10.2. Nodwyd cofnodion 24 Medi 2014, er gwybodaeth.</p>		
<p><b>11. Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil</b></p>	<p>11.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Staffio Academaidd a Chynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.</p> <p>11.2. <u>Cynllun Staffio</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddwyd y byddai 18 swydd yn cael eu cyllido yn sgil dyfarniadau swyddi 2015/16 a bod rhai sefydliadau eisoes yn paratoi disgrifiad swyddi.</li> <li>• Eglurwyd ymhellach mai dyma fyddai'r cylch dyfarnu olaf yn ei ffurf bresennol.</li> <li>• Adroddwyd bod y swyddogion ar fin dechrau'r cylch o gyfarfodydd cynllunio â'r sefydliadau addysg uwch i drafod cynnydd y cynlluniau a chynlluniau'r prifysgolion ar gyfer parhau i gyllido swyddi ar ôl i'r cyllido pum mlynedd gychwynol ddod i ben.</li> </ul>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>(BA/15/01/10)</b>	<p>11.3 <u>Ysgoloriaethau Ymchwil</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddwyd bod dyddiad panel dyfarnu ar gyfer ysgoloriaethau i gychwyn yn 2015/16 yn cyfarfod ar 26 Chwefror 2015. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn derbyn argymhellion ar 4 Mawrth 2015.</li> <li>• Adroddwyd oherwydd cyfyngiadau cyllido y tro hwn bu gofyniad am ac ymrwymiad gan y sefydliadau addysg uwch, wrth gyflwyno cais, y byddent yn ymrwmo i gynnal yr ysgoloriaethau am y tymor llawn, ac y byddai hynny'n golygu ymrwymiad i ddarparu o leiaf 50% o gostau pob ysgoloriaeth unigol.</li> <li>• Yn deillio o'r ffaith nad yw'r Coleg, ar hyn o bryd, mewn sefyllfa i gyllido ysgoloriaethau ymchwil o 2016/17 ymlaen cytunwyd y dylai'r Bwrdd Academaidd trafod blaenoriaethau cyllido ymchwil yn y cyfarfod nesaf.</li> </ul> <p>11.4 Cadarnhawyd y byddid yn trin pob dyfarniad ysgoloriaeth ymchwil sy'n dechrau yn 2015 mewn modd cyffredin o ran trefniadau cyllido ychwanegol.</p> <p>11.5 Cyflwynwyd papur, a gylchredwyd ar 30 Ionawr 2015, ar ddiffiniad swydd darlithio genedlaethol gan Dr Dylan Phillips. Yn dilyn trafodaeth fer ar y ddarpariaeth a gan nodi rhai sylwadau, derbyniwyd y papur.</p>	<p>Trafod blaenoriaethau cyllido ymchwil</p> <p>Swyddogion i weithredu</p>	<p>Dibynnol ar y sefyllfa gyllidol</p> <p>Ar unwaith</p>
<b>12. Ehangu mynediad a chyfranogiad (BA/15/01/11)</b>	<p>12.1. Cafwyd adroddiad llafar gan Delyth Murphy Cadeirydd y Pwyllgor Ehangu Mynediad.</p> <p>12.2. Adroddwyd bod maes ehangu mynediad yn flaenoriaeth i'r Cyngor Cyllido (HEFCW) a Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru.</p> <p>12.3. Cafwyd crynodeb o gofnodion y cyfarfod ar 17 Rhagfyr 2014 a chyflwynwyd pwyntiau bwled yn amlinellu datganiad safbwynt y pwyllgor. Trafodwyd y rhain ac argymhellwyd paratoi datganiad llawn erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd.</p>	<p>Delyth Murphy i baratoi datganiad erbyn y cyfarfod nesaf</p>	<p>13 Mai 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	12.4. Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd ymrafael ag ehangu mynediad trwy gyfrwng y Gymraeg a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â Delyth Murphy'n uniongyrchol gydag unrhyw argymhellion pellach.	Aelodau i gysylltu â Delyth Murphy	Cyn diwedd Chwefror 2015
<b>13. Pynciau cysylltiedig ag lechyd (BA/15/01/12)</b>	<p>13.1. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar bapur o argymhellion yn deillio o adolygiad ar ran y Coleg gan Dr Elin Walker Jones.</p> <p>13.2. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu colofnau ychwanegol gyda thargedau er mwyn creu cynllun mwy gweithredol.</p> <p>13.3. Argymhellwyd ymhellach y dylid ysgrifennu at y Gweinidog lechyd i ofyn am gyfarfod maes o law i drafod gwaith y Coleg yn y maes hwn.</p>	<p>Ychwanegu at y ddogfen</p> <p>Trafod â'r Cadeirydd</p>	<p>Diwedd Mawrth 2015</p> <p>Tymor y Gwanwyn</p>
<b>14. Materion yn codi</b>	<p>14.1. <u>Eitem 5.2 – Cofnodi data</u> Adroddodd y Cofrestrydd bod arweiniad a fideo ar gofnodi data i gofrestryddion y sefydliadau addysg uwch yn yr arfaeth.</p> <p>14.2 <u>Eitem 5.3 – Cofrestru myfyrwyr</u> Adroddwyd y derbyniwyd adroddiadau gan y sefydliadau addysg uwch ynghylch cofrestru myfyrwyr ar ddarpariaeth Gymraeg gan nodi bod rhai sefydliadau eisoes yn gweithredu yn y fath fodd. Nodwyd ymhellach bod yr un sefyllfa'n bodoli ym maes addysg bellach.</p> <p>14.3 <u>Eitem 15.1 – Cronfa caledi</u> Nodwyd pryderon y myfyrwyr ynghylch y newidiadau i'r gronfa caledi.</p>		
<b>15. UFA</b>	<p>15.1. Nodwyd bod y Coleg wedi derbyn Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl.</p> <p>15.2. Yn dilyn ymholiad gan un o'r aelodau ynghylch cyflwyno ymateb i Adolygiad Diamond cadarnhaodd y swyddogion</p>	Aelodau i annog y canghennau i gyflwyno	Ar unwaith

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>bod y Coleg yn y broses o gytuno ar yr ymateb ffurfiol. Argymhellwyd annog y canghennau i lunio ymatebion.</p> <p>15.3. Nodwyd mai Delyth Murphy a fydd yn cynrychioli staff y Coleg a Gwyndaf Lewis fydd yn cynrychioli myfyrwyr y Coleg yn y Llys ym Mangor ar 3 Mawrth 2015.</p> <p>15.4. Nodwyd mai'r Cymrodyr a urddir yn y Cynulliad ym Mangor ar 3 Mawrth 2015 fydd Heini Gruffudd, Catrin Stevens a'r Athro Gwyn Thomas:</p> <p>15.5. Cafwyd adroddiad llafar ar weithgareddau a phryderon y myfyrwyr gan Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC. Nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryder y myfyrwyr ynghylch trefniadau benthyciadau ôlraddeg sydd wedi eu cyflwyno yn Lloegr</li> <li>• Awydd i greu cymdeithas cyn-fyfyrwyr y Coleg. Cytunwyd bod hwn yn fater o bwys; dylid ystyried cyflwyno papur i'r Bwrdd Academaidd cyn gynted â phosibl (gan nodi blaenoriaethau'r cyfnod presennol).</li> <li>• Siarter Iaith Gymraeg UCMC wedi'i dderbyn yn Aberystwyth, Abertawe, Bangor a Chaerdydd</li> <li>• Cadarnhawyd bod y Coleg yn cynnal trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r drafodaeth am Safonau.</li> </ul> <p>15.6. Adroddodd y Deon, er gwybodaeth, ar ei ymweliadau i'r canghennau.</p>	<p>ymatebion ar gyfer Adolygiad Diamond</p> <p>DT i ysgrifennu papur</p>	<p>Hydref 2015</p>
<p><b>16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</b></p>	<p>16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr</li> <li>• 14 Hydref 2015, Bangor</li> <li>• 3 Chwefror 2016, Caerfyrddin</li> <li>• 11 Mai 2016, Prifysgol Caerdydd</li> </ul>		